*These notes refer to the Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (c.2)*

# MESUR LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2009

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH ARYR ADRANNAU

#### *Adran 24 - adroddiadau gwella blynyddol*

51. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynhyrchu a chyhoeddi bob blwyddyn adroddiad gwella blynyddol ar gyfer pob awdurdod gwella Cymreig. Rhaid i'r adroddiad gynnwys crynodeb o ganlyniadau unrhyw adroddiad a ddyroddwyd o dan adrannau 19 a 22 o'r Mesur. Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru ystyried yng ngoleuni'r adroddiad a ddylid:

- argymell i reolydd perthnasol sut y dylai arfer ei swyddogaethau;
- argymell y dylai Gweinidogion Cymru arfer eu pwerau o dan adran 28 ac adran 29; neu
- arfer unrhyw rai o'i swyddogaethau mewn perthynas â'r awdurdod.